Barchus gynulleidfa.

Y robot. Dyna, gyfeillion, fydd gen i dan sylw heno. Enw cyffredin iawn i ni heddiw ond gair nad oedd yn bod ganrif yn ôl. Dim siw na miw am Star Wars a'u tebyg. Dim smic am greaduriaid sy'n methu teimlo poen, cywilydd nac euogrwydd. Dim sôn am bobl artiffisial. Ond erbyn heddiw, sut fydden ni'n gwneud hebddyn nhw? Pwy fydde'n gweithio yn ein ffatrioedd i gynhyrchu ein ceir ac ati? Bobol bach! Byddai ar ben arnom.

A wyddoch chi beth? Robotiaid ydy'r arfau rhyfel newydd ar gyfer yr unfed ganrif ar hugain. Yn sgil y robotiaid hyn mi fydd yr ymadrodd 'mynd i ryfel' yn diflannu. Diflannu am byth! Ffantastig. Mae dweud bod rhywun yn mynd i ryfel wedi golygu yr un peth ers ymhell cyn cof. Mae'n golygu mynd i rywle lle mae'r peryg mor ofnadwy, mae'n bosib na ddowch chi yn ôl. Ond nawr, gyda dyfodiad robotiaid fydd dim angen mynd i ryfel.

Mae 'na enw digon diniwed arnyn nhw, sef '*Unmanned Aerial Vehicles*' neu 'eyes in the skies' fel y galwodd George Bush nhw nôl yn 2001. Ond pa mor ddiniwed ydy'r 'llygaid yn yr awyr'? Llygaid fel llygaid llechwraidd barcud ond bod y rhain yn gallu gweld a gwylio o bellter anhygoel. Maen nhw'n gallu eich gweld chi a fi ond hyd yn oed ar ddiwrnod clir, pan allech chi weld Iwerddon o gopa'r Wyddfa, fyddech chi a fi ddim yn eu gweld nhw.

A wyddoch chi eu bod nhw'n cael eu defnyddio yn eu miloedd yn barod gan yr Unol Daleithiau yn Affganistan, Irac a Phacistan? Does yna'r un enaid byw ar yr awyrennau yma, sy'n hofran yn dawel ac yn gyson uwchben - ond *mae* 'na beilotiaid. Sut hynny meddech chi? Wel, mi ddyweda i wrthych chi. Maen nhw'n eistedd filoedd o filltiroedd i ffwrdd ac yn tanio'r bomiau o glydwch gorsafoedd rheoli heb fod yn bell o gasinos Las Vegas yng Nghaliffornia. Rhyfedd o fyd.

A dydy'r cyfan ddim yn gyfrinach! Mae 'na filoedd o bobl wedi eu lladd gan y peilotiaid yma, a'r hyn sydd waeth yw bod llywodraeth Obama wedi cyfaddef bod nifer helaeth o'r miloedd hynny yn ddinasyddion dieuog. Yn famau. Yn blant diniwed. Mae'r peth yn warthus. Ond sut gall peilot mewn swyddfa wahaniaethu rhwng milwr a mam?

Enw arall ar yr UAVau, y robotiaid neu'r dronau yma ydy taflegrau *fire and forget*. Tanio ac anghofio. Tanio - ac mi ychwanega i 'lladd' - ac yna anghofio. Ie, anghofio heb deimlo unrhyw gydwybod. Ar ôl diwrnod o waith mewn swyddfa foethus, mae'r peilotiaid yn mynd adre i'w cartrefi clyd yng Nghaliffornia heb fod unrhywle'n agos at ryfel. Dim euogrwydd. Dim cydwybod.

Yn y llyfr '*Wired for War*' mae un o beilotiaid Califfornia yn disgrifio ei ddiwrnod gwaith. "Ry'ch chi'n mynd i ryfel am ddeuddeg awr, yn saethu taflegrau at dargedau'r gelyn, rych chi'n lladd milwyr y gelyn, ac wedyn rych chi'n mynd nôl i'ch car a gyrru adre ac ugain munud ar ôl bod mewn rhyfel chi'n eistedd wrth y bwrdd swper yn siarad â'ch plant am eu gwaith cartref."

Ie, ffrindiau, y robotiaid sydd wedi lladd, nid fe. Doedd e, wedi'r cwbl, ddim yn agos at y lle. Doedd dim gwaed ar ei ddwylo e.

Fe allwch chithau, hefyd, fod yn rhan o'r gêm. Yn ddiweddar mae Adran Amddiffyn yr Unol Daleithiau wedi dechrau rhoi clipiau o'r UAVau yma'n lladd pobl ar YouTube. Gwyliwch deitlau fel *Hellfire missile hitting a tank*. Maen nhw wedi cael eu gwylio dros ddeg miliwn o weithiau'n barod. Maen nhw'n un o lwyddiannau enfawr YouTube. Pornograffi rhyfel ydy'r enw arno. Go brin bod unrhyw un yma heno am fanteisio ar y cyfle wylio pobl go iawn yn cael eu lladd go iawn – gan robotiaid..?

Diolch am wrando